PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD MERCHER, 15 MAWRTH 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Michael(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Lynda Thorne, Ahmed, Burfoot, Gordon, Hudson, Hunt, Murphy a/ac Robson |

143 : YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Manzoor Ahmed a Lyn Hudson.

144 : COFNODION

Llofnodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2017 fel cofnod cywir.

145 : DATGAN BUDDIANNAU

| CYNGHORYDD | EITEM | RHESWM |
|---|---|---|
| Gordon | 16/02783/MNR | Gwrthwynebiad Aelod |
| Michael | 16/02726/MNR | Yn adnabod yr Ymgeisydd |
| Robson | 16/02057/MNR | Mynegwyd Barn |

146 : DEISEBAU

(i) Cais rhif 16/02783/MNR, Inroads, 96-97 Neville Street
(ii) Cais rhif, 16/02256/MJR, Cyfleuster Adennill Ynni Caerdydd, Parc Trident
(iii) Cais rhif, 16/02384/MJR, Cyfleuster Adennill Ynni Caerdydd, Parc Trident
(iv) Cais rhif, 16/02196/MJR, Ian Williams Ltd. blaenorol, Sanatorium Road
(v) Cais rhif, 16/02842/MNR, Tir yn gyfagos at 176 St Fagans Road
(vi) Cais rhif, 16/01885/MNR, 2A Waun-Y-Groes Avenue
(vii) Cais rhif, 14/02733/MJR, Gogledd-orllewin Caerdydd/Plas Dwr
(viii) Cais rhif, 16/02026/MNR, 20 Windsor Road
(ix) Cais rhif, 16/02057/MNR, Fferm Castell Y Mynach, Heol-Y-Parc

Mewn perthynas â (i), (ii), (iii), (iv), (v), (vi) a (viii) siaradodd y Deisebwyr ac ymatebodd yr Ymgeiswyr/Asiantau.

147 : CEISIADAU RHEOLI DATBLYGU

Ystyriodd y Pwyllgor yr atodlen o geisiadau rheoli datblygu a gyflwynwyd yn unol â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990:

PENDERFYNWYD: Y dylai'r Pwyllgor benderfynu ar y ceisiadau rheoli datblygu canlynol yn unol â phwerau a ddirprwyir iddo ac yn ôl yr argymhellion a nodir yn adroddiadau Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r Ddinas yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau pellach fel y manylir arnynt isod, a rhoi gwybod am y penderfyniad yn

unol ag Adran 74 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth 1990).

# CEISIADAU A RODDIR

16/01885/MNR – RHIWBEINA

2A WAUN-Y-GROES AVENUE
Newid defnydd 2 (preswyl) a 2A (swyddfeydd) i D1 (meithrinfa dydd)

16/02057/MNR – PENTYRCH
FFERM CASTELL Y MYNACH, HEOL-Y-PARC
Gwaredu'r bloc cyfredol o ddwy stabl, cadw'r bloc cyfredol o dair stabl ac ystafell dacio ynghyd â newidiadau allanol i stablau cyfredol i oresgyn pryderon am ddyluniad a chodi stabl ychwanegol i gael cyfanswm o bedwar stabl.

16/02726/MNR - RADUR
20 WINDSOR ROAD
Annedd newydd yn nhiroedd 20 Windsor Road gyda'r enw 20A Windsor Road. Cynnwys mynedfa safle newydd ar gyfer yr annedd.

16/02783- GLAN-YR-AFON
INROADS, 96-98 NEVILLE STREET
Amrywio Amod 2 (oriau agor) 12/00327/DCI i alluogi'r safle i fod ar agor i'r cyhoedd rhwng 09:00 a 20:00 ar unrhyw ddiwrnod ac i gyflawni swyddogaeth lloches argyfyngau trwy apwyntiad yn unig rhwng 20:00 a 02:30

Yn amodol ar ddiwygio Amod 2 a fydd yn nodi:

''Ni chaniateir i unrhyw aelod o'r cyhoedd fynd i mewn i'r safle neu aros ynddo rhwng 20:00 a 09:00 ar unrhyw ddiwrnod, ac eithrio ar gyfer y lloches argyfyngau fydd yn gweithredu trwy apwyntiad yn unig rhwng 20:00 a 02:30 ar nos Wener, Sadwrn, Sul a Llun.

16/02911/MJR – SBLOT
MAN AGORED CYHOEDDUS YN LEWIS ROAD
Adeiladu ysgol gynradd 2 llawr a mynedfa newydd i gerddwyr a cherbydau gyda thanc ysgeintio a thŷ pympiau, maes parcio/gwasanaethu, tirlunio, cyfleusterau hamdden a goleuadau allanol.

16/01823/MJR – CATHAYS
LEO ABSE & COHEN, 34-44 FFORDD CHURCHILL, CANOL Y DDINAS
Dymchwel estyniadau modern i ochr a chefn yr eiddo

# CEISIADAU A RODDIR WRTH WEITHREDU RHWYMEDIGAETH GYNLLUNIO O DAN ADRAN 106 DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990:

14/02733/MJR – CREIGAU/SAIN FFAGAN
GOGLEDD-ORLLEWIN CAERDYDD

Amlinellu’r cais cynllunio gyda’r holl faterion wedi’u cadw ac eithrio cyffyrdd mynediad strategol ar gyfer datblygiad aml-ddefnydd ond gyda defnydd preswyl yn bennaf, i gael ei ddatblygu fesul camau, gan gynnwys gwaith paratoi fel sy’n angenrheidiol gan gynnwys dymchwel ac ail-raddio lefelau'r safle; hyd at 5,970 o unedau preswyl (dosbarth defnydd C3, gan gynnwys cartrefi fforddiadwy); 3 chanolfan leol yn cynnig unedau preswyl, siopau a chyfleusterau/gwasanaethau (gan gynnwys hyd at 7,900 SQM ar gyfer dosbarthiadau defnydd A1-A3) a 1 ganolfan ranbarth yn cynnig unedau preswyl hyd at 12,000 SQM ar gyfer dosbarthiadau defnydd A1-A3 gan gynnwys hyd at ddwy siop fwyd (hyd at 5,000 SQM gros) gyda pharcio cysylltiedig hyd at 15,500 SQM ar gyfer dosbarth defnydd B1 (A), B1 (B) a B1 (C); hyd at 5,100 SQM o gyfleusterau gofal iechyd a chymunedol ledled y rhanbarth a chanolfannau lleol (dosbarthiadau defnydd D1 a D2); 3 ysgol gynradd ac ysgol uwchradd; man agored gan gynnwys rhandiroedd; parciau; man gwyrdd naturiol a lled naturiol; amwynder man gwyrdd; cyfleusterau ar gyfer plant a phobl ifanc; darpariaeth ar gyfer chwaraeon awyr agored gan gynnwys caeau chwarae; gwaith seilwaith a pheirianneg gysylltiedig gan gynnwys mynedfeydd newydd i gerbydau, gwaith gwellai i’r rhwydwaith briffordd gyfredol, ffyrdd, llwybrau cerdded, llwybrau beicio newydd, coridor trafnidiaeth strategol wedi’i gadw; hyd at 1 prif is-orsaf drydanol a gwaith tirlunio (gan gynnwys SDCau).

Yn amodol ar ychwanegu Amod 25 a fydd yn nodi:

‘(d) rhaglen weithredu a fydd yn ystyried yr atodlen fesul cam a chynllun wedi cymeradwyo dan Amod 17’ (FESUL CAM)

Yn amodol ar ddiwygio Amod 26 a fydd yn nodi:

‘Gwneir y datblygiad yn unol â’r manylion wedi’u cymeradwyo a’r manylion fesul cam y mae eu hangen dan Amod 17' (FESUL CAM)

Yn amodol ar ddiwygio Amod 27 a fydd yn nodi:

‘Gwneir y datblygiad yn unol â’r manylion wedi’u cymeradwyo a’r manylion fesul cam y mae eu hangen i gael eu cyflwyno dan Amod 17’' (FESUL CAM)

Yn amodol ar ddiwygio Amod 28 a fydd yn nodi:

‘Gwneir y datblygiad yn unol â’r manylion wedi’u cymeradwyo a’r manylion fesul cam y mae eu hangen i gael eu cyflwyno dan Amod 17’' (FESUL CAM)

Yn amodol ar ddiwygio Amod 29 a fydd yn nodi:

‘Gwneir y datblygiad yn unol â’r manylion wedi’u cymeradwyo a’r manylion fesul cam y mae eu hangen i gael eu cyflwyno dan Amod 17’' (FESUL CAM)

Yn amodol ar ddiwygio Amod 31 a fydd yn nodi:

‘Gwneir y datblygiad yn unol â’r manylion wedi’u cymeradwyo a’r manylion fesul cam y mae eu hangen i gael eu cyflwyno dan Amod 17’' (FESUL CAM)

Yn amodol ar ddiwygio Amod 32 a fydd yn nodi:

‘Gwneir y datblygiad yn unol â’r manylion wedi’u cymeradwyo a’r manylion fesul cam y mae eu hangen i gael eu cyflwyno dan Amod 17’’ (FESUL CAM)

Yn amodol ar ddiwygio Amod 33 a fydd yn nodi:

‘Gwneir y datblygiad yn unol â’r manylion wedi’u cymeradwyo a’r manylion fesul cam y mae eu hangen i gael eu cyflwyno dan Amod 17’’ (FESUL CAM)

Yn amodol ar ddiwygio Amod 34 a fydd yn nodi:

‘Gwneir y datblygiad yn unol â’r manylion wedi’u cymeradwyo a’r manylion fesul cam y mae eu hangen i gael eu cyflwyno dan Amod 17’’ (FESUL CAM)

Yn amodol ar ddiwygio Amod 53 a fydd yn nodi:

‘Lle bo’r adroddiad asesiad risg cymeradwy wedi’i gyflwyno dan amod 52 (LLYGRU TIR A: ASESIAD RISG)

Yn amodol ar ddiwygio Amod 54 a fydd yn nodi:

‘Lle bo’r adroddiad asesiad risg cymeradwy wedi’i gyflwyno dan amod 52 (LLYGRU TIR A: ASESIAD RISG)’

Yn amodol ar ddiwygio Amod 55 a fydd yn nodi:

‘Lle bo’r adroddiad asesiad risg cymeradwy wedi’i gyflwyno dan amod 52 (LLYGRU TIR A: ASESIAD RISG)’

Yn amodol ar ddiwygio Amod 15 a fydd yn nodi:

(f) dyluniadau manwl ar gyfer unrhyw strwythurau dros ffyrdd ac ati a ddangosir ar y Cynllun Paramedr Seilwaith Gwyrdd (dyluniad rhif R.0319_17j-4) ac fel y mae amod 72 (STRWYTHURAU YCHWANEGOL DROS FFYRDD AC ATI) yn ei gwneud yn ofynnol ac a fydd yn cynnwys y materion sydd yn llythyr CNC dyddiedig 24/2/17’

‘ (i) Bydd y Strategaeth Rheoli Seilwaith Gwyrdd Manwl yn cynnwys Strategaeth Madfall Ddŵr Gribog Manwl, a fydd yn cynnwys materion a nodwyd yn llythyr CNC dyddiedig 24/02/17’

Yn amodol ar ddiwygio Amod 50 a fydd yn nodi:

‘ cynllun goleuadau, gan gynnwys mesurau i leihau swm y golau ar safle adeiladu sy’n goleuni ar gynefinoedd a choridorau allweddol, a fydd yn cynnwys materion a nodwyd yn llythyr CNC dyddiedig 24/02/17.

Yn amodol ar ychwanegu’r geiriau canlynol at Amod 32:

‘ e) giât traffig ANPR i roi cyfyngiad amser ar fynediad llifoedd o draffig ar Crofft-Y-Genau Road’

Yn amodol ar ychwanegu’r geiriau canlynol at Amod 33:

‘Bydd y manylion peirianneg llawn yn cynnwys manylion am giât traffig ANPR i roi cyfyngiad amser ar fynediad llifoedd o draffig ar Crofft-Y-Genau Road

Yn amodol ar ddiwygio paragraff 5.26 yr adroddiad: sylwadau’r Rheolwr Gweithredol Trafnidiaeth ar dudalen 221 i nodi:

‘Waun Gron Rd, Gwelliannau i’r gyffordd ar A48 Western Avenue’

‘Western Avenue i Gylchfan Ely, cyn arwyddion i draffig sy'n teithio i'r de'

‘Cyffordd Western Avenue/Ely Rd, croesfan twcan i’r dwyrain’

‘Western Avenue i Waun Gron Rd, llwybr beiciau a rennir ar yr ochr i’r gorllewin’

Yn amodol ar ychwanegu’r Amod 84 ychwanegol canlynol at baragraff 8.4 adroddiad y Pwyllgor:

‘ADEILADU Y TU ALLAN I DERFYN SETLIAD
Er gwaethaf darpariaethau Amod 3, ni adeiladir unrhyw adeilad i dde Pentrabane Road y tu hwnt i’r terfyn setliad a nodir ar Fap Cynigion y Cynllun Datblygu Lleol

16/01042/MNR – ADAMSDOWN

GORSAF MOT SYSTEM ST, 64 SYSTEM STREET
Dymchwel yr orsaf MOT ac annedd cyfredol ac adeiladu 5 annedd â dau ystafell wely.

16/01074/MNR –LLANDAF
RICHARD PARFITT ASSOCIATES, 18D HEOL FAWR
Ychydig o ddymchwel a newid swyddfeydd cyfredol yn 18D Heol Fawr, Llandaf i gynnig 9 fflat preswyl.

Yn amodol ar ddiwygio Argymhelliad 1 i nodi:

‘yn amodol ar bartïon perthnasol yn gwneud cytundeb cyfreithiol sy’n rhwymo gyda’r Cyngor dan ddarpariaethau ADRAN 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ymhen 6 mis o ddyddiad y Datrysiad hwn oni bai y cytunir fel arall gan y Cyngor yn ysgrifenedig, mewn perthynas â materion a nodi ym mharagraffau 5.4 a 5.7 yr adroddiad hwn, fel y diwygiwyd gan y Sylwadau Hwyr i’r Pwyllgor Cynllunio o’r Prisiwr Ardal, fod caniatâd cynllunio’n cael ei GYMERADWYO yn amodol ar yr amodau canlynol’

16/01822/MJR – CATHAYS

LEO ABSE & COHEN, 34-44 FFORDD CHURCHILL, CANOL Y DDINAS
Dymchwel estyniadau modern i ochr a chefn yr eiddo ac adeiladu estyniadau newydd yn adeiladau Fictoria gan gynnwys newidiadau allanol a newid defnydd o swyddfa (Dosbarth defnydd B1) i breswyl (Dosbarth defnydd C3)

16/01852/MNR - GABALFA
UPLANDS MOBILES LIMITED 184 HEOL Y GOGLEDD

Cynnig dymchwel estyniad rhandy yn y cefn a newid eiddo i greu 4 fflat ag un ystafell wely a 2 fflat â dwy ystafell wely gyda chyfleusterau storio beiciau a gwastraff ar y safle.

Yn ar amodol ar ddiwygio Paragraff 8.11 i nodi:

'Mae'r Swyddog Strategaeth Tai wedi cael gwybod, yn yr achos hwn, lle bo gennym gyngor proffesiynol annibynnol ar ymarferoldeb, fod cyfraniad llai at dai fforddiadwy yn dderbyniol a bod y cynnig uchod yn briodol'

16/01930/MJR – PONTPRENNAU/ LLANEIRWG
THE GRANARY, BRIDGE ROAD
Cynnig datblygu 3 tŷ ar wahân gyda mynediad a pharcio cysylltiedig. Ehangu lôn gyfredol i gynnig ffordd fynediad a llwybr cerdded i gerddwyr i'r ALl gymeradwyo.

16/02384/MJR – SBLOT
CYFLEUSTER ADENNILL YNNI CAERDYDD, PARC DIWYDIANNOLTRIDENT, GLASS AVENUE
Addasu Cytundeb Adran 106 i ddileu'r rhwymedigaeth y caiff gwastraff o Dde-ddwyrain Cymru yn unig ei brosesu yn y datblygiad (paragraff 6.1).

16/02256/MJR – SBLOT
CYFLEUSTER ADENNILL YNNI CAERDYDD, PARC DIWYDIANNOLTRIDENT, GLASS AVENUE
Amrywio Amod 22 10/00149/E fel na fydd y cyfleuster yn trin mwy na 425,000 o dunelli o wastraff gweddilliol y flwyddyn.

# CEISIADAU WEDI'U GWRTHOD

16/01582/MJR – PONTPRENNAU/ LLANEIRWG
TIR YN MALTHOUSE AVENUE
Cynnig datblygu hyd at 150 o gartrefi, mynediad newydd i gerbydau, llwybrau i gerddwyr a beicwyr, man agored cyhoeddus, tirlunio, draeniau a gwaith cysylltiedig.

16/02842/MNR – Y TYLLGOED
TIR YN GYFAGOS AT 176 ST FAGANS ROAD
Adeiladu uned A1/A2 ar wahân sy'n ymestyn dros dua 54 metr sgwâr ar dir yn 176 St Fagans Road.

16/02196/MJR – TREGANNA
IAN WILLIAMS LTD BLAENOROL, SANATORIUM ROAD
Newid defnydd, newidiadau ac estyniadau i ffurfio addoldy dosbarth D1 (sefydliadau amhreswyl), gan gynnwys mosg â deulawr gyda minarét, cromen, preswyl â deulawr wedi'u hatodi i Imamau a chyfleuster cymunedol unllawr ar wahân ynghyd â pharcio a gwaith cysylltiedig.

148 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Daeth y cyfarfod i ben am Time Not Specified